Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 29 TACHWEDD 2016, ym MedRus 1, Penbryn.

Yn bresennol: Syr Emyr Jones Parry, Canghellor (Cadeirydd); Mrs Elizabeth France, Dirprwy Ganghellor; Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor; Dr Glyn Rowlands, Dirprwy Ganghellor; Dr Timothy Brain, Trysorydd; yr Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros Dro; Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Mr George Ashworth; Ms Anne Davies (drwy Skype, hyd at gofnod 32); Mrs Janet Davies; Mr Keith Evans; Mr Richard John; Mr Ian MacEachern; Dr Emyr Roberts; Dr Hazel Davey; yr Athro Neil Glasser; Dr Jenny Mathers; Ms Jackie Sayce; Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA; a Ms Lauren Marks, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Yn gweinyddu: Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio (ar gyfer cofnod 36 a 37); a Mr Eiddig Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol (ar gyfer cofnodion 31 i 33).

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; a'r Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil).

22. MATERION PERSONOL I'W CODI GAN Y CADEIRYDD

1. Cydymdeimlo

   Estynnwyd cydymdeimlad yn sgil marwolaethau:

   1. yr Athro Kevin Shingfield, Cadair Ffisioleg Maeth yn IBERS; a

   2. Mair Williams, a arferai fod yn aelod o Gyngor y Brifysgol.

2. Graddio

   Dywedodd Cadeirydd y Cyngor fod prifysgolion eraill yng Nghymru yn draddodiadol yn canu anthem genedlaethol Cymru yn ystod eu seremonïau graddio. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor Dros Dro i ystyried, ar y cyd â'r staff a'r myfyrwyr, a fyddai'n briodol i Brifysgol Aberystwyth ganu'r anthem ar ddiwedd ei seremonïau graddio yn y dyfodol (**GWEITHREDU:** Is-Ganghellor Dros Dro).

23. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd yr un datganiad o fuddiannau perthnasol yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

24. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2016 (COU1617-026).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

25. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnod yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran bwrw ymlaen â'r penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau gweithredu a oedd yn dal heb eu cymryd o gyfarfodydd blaenorol (COU1617-027).

NODWYD

Y wybodaeth ddiweddaraf yng nghofnod y penderfyniadau.

26. GOHEBIAETH

NODWYD

Roedd yr Is-Ganghellor Dros Dro wedi derbyn llythyr oddi wrth CCAUC yn dilyn y llythyr cynharach ynghylch yr Adolygiad o Risg Sefydliadol. Byddai'r llythyr diweddaraf hwn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun trafodaeth y Cyngor ar weithredu'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt yn y diwrnod encil.

27. ENNYD IECHYD A DIOGELWCH

NODWYD

Ar 17 Tachwedd 2016, roedd gwyntoedd 94 i 97mya dros gyfnod o 20 munud wedi peri difrod i Aberystwyth a'r cyffiniau. Yn y Brifysgol, difrodwyd chwe char wrth i goed gwympo. Roedd y gwyntoedd hefyd wedi effeithio ar adeiladau academaidd ac adeiladau preswyl ar y campws. Roedd y Brifysgol wedi rhoi ei chynllun parhad busnes ar waith yn effeithiol, ac roedd bellach yn cyd-drafod ag yswirwyr i sicrhau bod y gwaith atgyweirio angenrheidiol yn cael ei gwblhau.

PENDERFYNWYD

Y dylid anfon neges at aelodau'r Cyngor lle y bo hynny'n bosib yn ystod digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol, neu'n syth ar ôl iddynt ddigwydd, er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n cael gwybodaeth gyflawn rhwng cyfarfodydd y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

28. GWEITHREDU'R AMCANION STRATEGOL Y CYTUNWYD ARNYNT YN NIWRNOD ENCIL Y CYNGOR

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-028);

2. Adroddiad gan yr Is-Ganghellor Dros Dro (COU1617-029);

3. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid (COU1617-030);

4. Llythyr dilynol oddi wrth CCAUC ynghylch yr Adolygiad o Risg Sefydliadol, dyddiedig 23 Tachwedd 2016 (COU1617-054);

5. Crynodeb o'r Cynllun Trawsnewid Drafft (COU1617-055).

NODWYD

6. Ar 18 Hydref 2016, cymeradwyodd y Cyngor benderfyniad yn amlinellu'r cyfeiriad a bennwyd yn niwrnod encil y corff llywodraethu. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn bwrw ymlaen â'r amcanion strategol a nodwyd yn y penderfyniad hwn yn rhan o Gynllun Trawsnewid arfaethedig, sef cam nesaf Cynllun Adfer y sefydliad.

7. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol wrthi'n gwneud gwaith cwmpasu ar sut y dylid rhoi'r Cynllun Trawsnewid ar waith, er mwyn cyd-fynd â'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i gryfhau'r strategaeth denu myfyrwyr (y Cynllun Cyflawni Denu Myfyrwyr) a'r pwyslais ar ragoriaeth academaidd ac i wella bodlonrwydd myfyrwyr (Cynllun Llwyddiant y Myfyrwyr).

8. Yn ei diwrnod encil hithau ar 16 Tachwedd 2016, cyflwynwyd amlinelliad o'r Cynllun Trawsnewid newydd i'r Senedd. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r amcanion arfaethedig i sicrhau Prifysgol gynaliadwy erbyn 2018–19, a chymeradwywyd penderfyniad a oedd yn cyd-fynd â phenderfyniad y Cyngor.

9. Byddai'r Cynllun Trawsnewid yn hollbwysig wrth ddatblygu cyllideb ddrafft ar gyfer blwyddyn academaidd 2017–18. I bob pwrpas, byddai'r pwyslais dros y misoedd nesaf ar gwmpasu a gweithredu'r Cynllun Trawsnewid, yn lle'r Cylch Cynllunio traddodiadol.

10. Gofynnodd rhai aelodau am eglurder ynghylch gweledigaeth arfaethedig y Brifysgol a fyddai'n llywio'r gwaith o weithredu'r Cynllun Trawsnewid. Cydnabuwyd y byddai angen cytuno ar weledigaeth o'r fath fel mater o flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod y staff, y myfyrwyr a'r rhanddeiliaid allweddol yn deall yn llwyr y rhesymeg dros rai o'r camau gweithredu a fyddai'n cael eu rhoi ar waith yn rhan o'r Cynllun Trawsnewid.

11. Yn ei lythyr ar 23 Tachwedd 2016, roedd y Cyngor Cyllido wedi codi nifer o gwestiynau yn sgil ymateb cynharach y Brifysgol i lythyr Adolygiad o Risg Sefydliadol 2016. Roedd Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor Dros Dro wedi drafftio ymateb arfaethedig i CCAUC, a fyddai'n cael ei ddatblygu ymhellach ar ôl cael adborth gan aelodau'r Cyngor. Byddai copi o ymateb terfynol y Brifysgol ar gael i'r aelodau drwy SharePoint (COU1617-056).

12. Yn benodol, roedd CCAUC wedi gofyn am gyllideb ddiwygiedig gan y Brifysgol ar gyfer 2016–17, gan ystyried ffigurau cofrestru gwirioneddol y myfyrwyr a ddechreuodd yn 2016 a oedd bellach yn hysbys. Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd angen cyllideb ddiwygiedig o'r fath ar hyn o bryd, ac ystyried natur y gyllideb sydd eisoes ar waith ar gyfer y flwyddyn academaidd hon a'r hyblygrwydd y darparwyd ar ei gyfer eisoes.

PENDERFYNWYD

13. Cymeradwyo cyfeiriad yr ymateb arfaethedig i lythyr CCAUC ar 23 Tachwedd 2016, fel y'i hamlinellwyd ar lafar yn ystod y cyfarfod hwn (**GWEITHREDU:** Is-Ganghellor Dros Dro).

14. Cymeradwyo'r saith pwynt bwled yn y Crynodeb o'r Cynllun Trawsnewid drafft yn nodi amcanion y Cynllun yn y pen draw, a gwahodd Gweithrediaeth y Brifysgol i fireinio ymhellach y camau gweithredu a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i wireddu'r Cynllun ac adrodd yn ôl i'r Cyngor (**GWEITHREDU:** Is-Ganghellor Dros Dro).

15. Gwahodd yr Is-Ganghellor Dros Dro a Phennaeth Cyfathrebu i weithio ar ddatganiad drafft o weledigaeth y Brifysgol, gan dynnu ar sylwadau aelodau'r Cyngor yn ystod y cyfarfod, a chylchredeg copi i'r aelodau i'w ystyried drwy ohebiaeth (**GWEITHREDU:** Is-Ganghellor Dros Dro; Pennaeth Cyfathrebu).

29. SICRHAU ANSAWDD YN ALLANOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Athrofa'r Celfyddydau a'r Dyniaethau; a'r Cyfarwyddwr Ansawdd Academaidd a Chofnodion (COU1617-033).

NODWYD

1. Ym mis Hydref 2014, cychwynnodd y tri chorff cyllido addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon Adolygiad Asesu Ansawdd yn rhan o ddyletswydd statudol pob corff cyllido i asesu ansawdd addysg uwch. Yn sgil yr adolygiad hwn, y bwriad oedd datblygu dull gweithredu a fyddai'n fwy seiliedig ar risg gydag ymyrraeth gyflym a phriodol pan geir hyd i broblemau.

2. Yn y cyd-destun hwn, roedd CCAUC bellach wedi cyhoeddi dau ymgynghoriad: un ar ofynion sicrhau ansawdd yn allanol ar sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio; ac ail ymgynghoriad ar ddatganiadau sicrwydd blynyddol posib ynghylch ansawdd gan gyrff llywodraethu. Roedd Prifysgol Aberystwyth wedi llunio ymatebion drafft i'r ymgynghoriadau hyn ac roeddent wedi'u cylchredeg i'r aelodau yn rhan o'r adroddiad.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r ymatebion arfaethedig i'r ymgynghoriadau (**GWEITHREDU:** Pennaeth Cynllunio Strategol).

30. Y FFRAMWAITH RHAGORIAETH ADDYSGU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-032).

NODWYD

1. Yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno Cam Dau y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA), roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr wedi rhyddhau setiau data i bob sefydliad yn amlinellu sut yr oeddent yn debygol o berfformio yng Ngham Dau. Ond yn ogystal â dadansoddi data, byddai'r naratif a gyflwynid gan y prifysgolion hefyd yn cael ei ystyried gan aseswyr y FfRhA er mwyn dynodi sefydliadau'n rhai Efydd, Arian ac Aur.

2. Disgwylir y bydd cyflwyno Cam Dau y FfRhA yn broses gythryblus, ac o'r herwydd gellid cyflwyno newidiadau mawr i'r fframwaith yn y blynyddoedd sydd i ddod. Bu'r aelodau felly'n ystyried a fyddai'n well i Brifysgol Aberystwyth beidio â chymryd rhan yng Ngham Dau y FfRhA am y tro.

3. Mewn cyfarfod diweddar bu Prifysgolion Cymru yn ystyried a ddylai sefydliadau addysg uwch Cymru gymryd rhan yng Ngham Dau y FfRhA, a byddai'r mater yn cael ei drafod eto yn y flwyddyn newydd. Er y gallai prifysgolion yng Nghymru gymryd rhan yn nau gam y FfRhA, ni fyddai dim budd ariannol o wneud hynny.

PENDERFYNWYD

4. Na fyddai'r sefydliad, er ei fod eisoes wedi cwblhau Cam Un y FfRhA, yn cymryd rhan yng Ngham Dau y FfRhA am y tro. Er hynny, byddai'r Cyngor yn barod i ailystyried y mater pe bai'r Is-Ganghellor Dros Dro am argymell bod Prifysgol Aberystwyth yn cymryd rhan yn sgil trafodaethau pellach â Phrifysgolion Cymru (**GWEITHREDU:** Is-Ganghellor Dros Dro).

31. CAMPWS ARLOESI A MENTER ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (COU1617-034).

NODWYD

1. Ym mis Mehefin, cytunodd y Cyngor y dylid buddsoddi mewn cyfleusterau prosesu a Bio-Fanc Hadau newydd, a thrwy arfer ei Bwerau Gweithredol, rhoddodd y Cadeirydd ganiatâd i gychwyn proses gaffael ar y cyd ag AIEC Cyf. ar gyfer Prif Gontractwr i'r datblygiad. Yn sgil y broses gaffael hon, argymhellwyd y dylai Prifysgol Aberystwyth lunio Cytundeb Gwasanaethau Cyn Adeiladu â chwmni adeiladu Willmott Dixon.

2. O dan y Cytundeb Gwasanaethau Cyn Adeiladu, byddai Willmott Dixon yn gweithio ochr yn ochr â Thîm Cleient AIEC i sefydlu dau gontract adeiladu: byddai AIEC Cyf. yn caffael ac yn adeiladu y 'Prif Adeilad' newydd a fyddai'n cynnwys mannau prosesu a labordai, tra bo Prifysgol Aberystwyth yn caffael ac yn adeiladu'r Bio-Fanc Hadau a'r cyfleusterau prosesu. Fodd bynnag, byddai'r ddau gontract adeiladu'n cael eu dyfarnu i'r un Prif Gontractwr er mwyn lleihau'r cymhlethdod ar un safle adeiladu.

3. Roedd y Brifysgol yn aros am gymeradwyaeth ffurfiol gan y Comisiwn Elusennau er mwyn prydlesu tir yng Ngogerddan i AIEC Cyf. Hyd nes y ceid y gymeradwyaeth honno, byddai Prifysgol Aberystwyth yn gweithredu fel asiant i AIEC Cyf yn y cyfnod cyn adeiladu.

4. Byddai cynnig pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w ystyried maes o law o ran penodi ar gyfer prif elfen adeiladu'r datblygiad hwn.

PENDERFYNWYD

5. Penodi cwmni adeiladu Willmott Dixon yn rhan o'r Cytundeb Gwasanaethau Cyn Adeiladu i ddarparu Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

6. Y bydd y Brifysgol yn gweithredu fel asiant i AIEC Cyf yn y cyfnod cyn adeiladu, fel Cyflogwr o dan y Cytundeb Gwasanaethau Cyn Adeiladu (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

32. ADRODDIADAU DIWEDD BLWYDDYN

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd wedi'i gydlynu gan yr Adran Gyllid yn cynnwys y dogfennau isod (COU1617-035):

1. Datganiadau Ariannol y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2016;

2. Adroddiad Blynyddol ar Sicrhau Cynaliadwyedd;

3. Llythyr Rheoli a Memorandwm yr Archwilwyr Allanol;

4. Datgeliad y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern;

5. Llythyr cynrychioli drafft i'r Archwilwyr Allanol;

6. Datganiadau Sicrwydd Rheoli; a

7. Rhestr gymeradwyo'r Weithrediaeth.

NODWYD

8. Er bod y Datganiadau Ariannol wedi'u cyflwyno yn yr un arddull ag yn y blynyddoedd a aeth heibio, roedd yr egwyddorion cyfrifo a ddefnyddid bellach yn cydymffurfio â Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102, yn yr un modd â'r sefydliadau addysg uwch eraill yr oedd yn rhaid iddynt newid i'r safon hon.

9. Roedd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried yr adroddiadau diwedd blwyddyn yn eu cyfarfodydd ar 11 Tachwedd 2016. Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg, roedd yr aelodau wedi cael gwybod gan yr Archwilwyr Mewnol y byddai'n arfer da i'r Trysorydd gymryd rhan wrth i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ystyried y Datganiadau Ariannol diwedd blwyddyn.

10. Roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd wedi ystyried y datganiadau a wnaed yn y Datganiadau Ariannol ynghylch 'busnes parhaus', ac wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y Cyfarwyddwr Cyllid. Cadarnhawyd bod yr Archwilwyr Allanol yn fodlon yn hynny o beth.

11. Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r tîm am eu gwaith caled yn paratoi'r Datganiadau Ariannol a'r archwiliad allanol llwyddiannus a oedd yn gysylltiedig â hynny.

PENDERFYNWYD

12. Cymeradwyo'r dogfennau isod (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol):

    1. Datganiadau Ariannol y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2016;

    2. Adroddiad Blynyddol ar Sicrhau Cynaliadwyedd;

    3. Llythyr Rheoli a Memorandwm yr Archwilwyr Allanol;

    4. Datgeliad y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern; a'r

    5. Llythyr cynrychioli drafft i'r Archwilwyr Allanol.

13. Gwahodd y Trysorydd a chadeirydd newydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i drafod a chyflwyno adroddiad i'r Cyngor fel y bo'n briodol ar y cynnig i wahodd y Trysorydd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn y dyfodol pan fo'r Datganiadau Ariannol diwedd blwyddyn yn cael eu hystyried (**GWEITHREDU:** Trysorydd; a Dr Emyr Roberts).

33. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG (YN CYNNWYS BARN FLYNYDDOL YR ARCHWILWYR MEWNOL)

DERBYNIWYD

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer blwyddyn ariannol 2015–16, yn cynnwys Barn ac Adroddiad 2015–16 yr Archwilwyr Mewnol (COU1617-036).

NODWYD

1. Cyflwynwyd yr adroddiad ar waith y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer 2015–16 (a hyd at ei gyfarfod mwyaf diweddar) i'r Cyngor yn unol â Chod Ymarfer CCAUC ar Archwilio (diwygiwyd yn 2008) a Chod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (Rhagfyr 2014).

2. Roedd Archwilwyr Mewnol y Brifysgol, Deloitte, hefyd wedi cytuno ar eu Barn ac Adroddiad Blynyddol. Byddai'n cael ei gyflwyno i CCAUC yn ystod mis Ionawr 2016 ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg ei hun.

3. Gallai'r Pwyllgor Archwilio a Risg roi sicrwydd i'r Cyngor y gall ddibynnu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol y Brifysgol, ei systemau rheoli risg a'i phrosesau llywodraethu.

4. Byddai'r Dirprwy Ganghellor Elizabeth France yn gorffen fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 31 Rhagfyr 2016. Diolchwyd iddi am ei gwaith ar y pwyllgor dros y blynyddoedd diwethaf.

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol (**GWEITHREDU:** Clerc y Pwyllgor Archwilio a Risg).

34. SWYDDOGION Y BRIFYSGOL: DIRPRWY GANGELLORION A'R TRYSORYDD

NODWYD

1. Byddai tymhorau pum mlynedd cyntaf y Dirprwy Gangellorion Dr Glyn Rowlands a Gwerfyl Pierce Jones, a'r Trysorydd, yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2016. Roedd pob un yn gymwys i'w hailbenodi. Er hynny, yn unol ag arfer da, byddai aelodau eraill o'r Cyngor a oedd am wasanaethu yn y swyddi hynny yn cael eu hannog i gynnig eu henwau i'w henwebu.

2. Yn ei gyfarfod nesaf ar 16 Chwefror 2017, byddai Pwyllgor y Siarter yn ystyried ymhellach faint a chyfansoddiad y Cyngor er mwyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor drannoeth. Gan mai'r nod yn y pen draw oedd lleihau maint y Cyngor, byddai nifer y swyddi gwag i Ddirprwy Gangellorion yn dibynnu ar yr hyn y penderfynid ei wneud yn hynny o beth.

3. Hefyd yn y Cyngor ar 17 Chwefror 2017, byddai'r aelodau'n cael eu gwahodd i ystyried y broses i benodi Canghellor nesaf y Brifysgol a Chadeirydd y Cyngor (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol). Byddai hyn yn cynnwys ystyried posibiliadau penodi dau unigolyn, un i bob un o'r swyddi a gyflawnir gan Syr Emyr Jones Parry ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD

4. Estyn tymhorau cyfredol y Dirprwy Gangellorion Dr Glyn Rowlands a Gwerfyl Pierce Jones, a'r Trysorydd, tan 28 Chwefror 2017 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

5. Gwahodd aelodau annibynnol y Cyngor i gyflwyno enwebiadau i wasanaethu fel Dirprwy Ganghellor neu Drysorydd i Gadeirydd y Cyngor erbyn 31 Rhagfyr 2016, er mwyn i'r enwebiadau hyn gael eu hystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau ar 17 Chwefror 2017, ac er mwyn cyflwyno argymhellion i'r Cyngor i'w cymeradwyo'n ffurfiol yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw (**GWEITHREDU:** Aelodau Annibynnol).

35. PRIFYSGOL ABERYSTWYTH YM MAWRISIWS

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Eiddig Morgan (COU1617-037).

NODWYD

1. Ar hyn o bryd, mae campws cangen y Brifysgol ym Mawrisiws yn cael ei redeg gan Aberystwyth Cyf., is-gwmni sy'n cynnwys cyfarwyddwyr a benodwyd gan bartneriaid busnes y Brifysgol yn y fenter, Boston Campus Ltd (BCL).

2. Er mwyn diffinio swyddogaethau cyfarwyddwyr BCL a Phrifysgol Aberystwyth yn well, a'r agweddau hynny y dylent fod yn ymwneud â hwy, roedd strwythur diwygiedig yn

cael ei gynnig lle byddai cyfrifoldebau Prifysgol Aberystwyth yn cael eu cyflawni gan is-gwmni newydd ym mherchnogaeth lwyr y Brifysgol. Roedd BCL yn cefnogi strwythur o'r fath.

3. Roedd aelodau'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth wedi ystyried y strwythur diwygiedig arfaethedig ar gyfer gweithrediadau yn eu cyfarfod ar 11 Tachwedd 2016. Argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo creu is-gwmni newydd ym mherchnogaeth lwyr y Brifysgol.

4. Byddai'r Is-Ganghellor Dros Dro a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) yn ymweld â'r campws cangen ddiwedd Ionawr ac yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar y gweithrediadau cyfredol a chyfleoedd i'w datblygu yn y dyfodol (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo strwythur diwygiedig Prifysgol Aberystwyth Mawrisiws (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Eiddig Morgan).

36. Y DDOGFEN CYNLLUNIO STRATEGOL AC YMGYSYLLTU

DERBYNIWYD

Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynllunio; a'r Pennaeth Cynllunio Strategol (COU1617-038).

NODWYD

1. Roedd Prifysgol Aberystwyth wedi cyflwyno ei Dogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu gyntaf i CCAUC ym mis Rhagfyr 2014. Lluniwyd y Ddogfen ar y cyd â Phrifysgol Bangor, ac roedd yn berthnasol i'r cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2016. Roedd gwaith yn mynd rhagddo felly i lunio Dogfen newydd i'w chyflwyno erbyn dyddiad cau CCAUC ar 03 Ionawr 2017.

2. Byddai'r Ddogfen newydd yn cael ei llunio'n ofalus i adlewyrchu blaenoriaethau strategol CCAUC a'r ffordd y mae Prifysgol Aberystwyth yn eu cyflawni, ond hefyd i gyd-fynd ag ymwneud parhaus y sefydliad â'r Cyngor Cyllido.

PENDERFYNWYD

3. Y dylid cylchredeg drafft o Ddogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu'r Brifysgol i aelodau'r Cyngor i'w hadolygu a'i chymeradwyo drwy ohebiaeth yn ystod mis Rhagfyr 2016 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

37. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-031).

NODWYD

1. Ystyriodd yr aelodau'r data ar geisiadau myfyrwyr a fyddai'n dechrau ym mis Medi 2017, a sut yr oedd y niferoedd yn cymharu â'r un adeg yn y cylch denu myfyrwyr y llynedd. Roedd rhai adrannau'n gwneud gryn dipyn yn well, tra bo perfformiad eraill wedi gwaethygu.

PENDERFYNWYD

2. Cylchredeg adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran denu myfyrwyr i aelodau'r Cyngor yng nghyswllt y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau UCAS ym mis Ionawr 2017, cyn cyfarfod nesaf y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

38. ORDINHADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-039).

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 04 Tachwedd 2016, ystyriodd y Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb ddwy weithdrefn newydd ynghylch: Cwynion ar y Cyd; a Disgyblu yn ystod Cyfnod Prawf. Yn ystod cyfarfod y pwyllgor, holodd aelodau a ddylid cynnwys y gweithdrefnau newydd hyn mewn Ordinhadau a chytunwyd i ofyn am gyfarwyddyd gan Bwyllgor y Siarter ynghylch hynny.

2. Cyfeiriwyd y mater at Bwyllgor y Siarter ar 13 Tachwedd 2016 a phenderfynodd yr aelodau argymell drwy ohebiaeth y dylai'r gweithdrefnau hyn ddod yn rhan ffurfiol o'n dogfennau llywodraethu, ynghyd ag Ordinhadau tebyg ynghylch gweithdrefnau disgyblu a chwynion, ac y dylid eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r ddau Ordinhad newydd ynghylch: Cwynion ar y Cyd; a Disgyblu yn ystod Cyfnod Prawf (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol; ac Ysgrifennydd y Brifysgol).

39. GWOBRAU ER ANRHYDEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-040).

NODWYD

1. Ar 18 Hydref 2016, cyfarfu'r Pwyllgor ar Wobrau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau ar gyfer Gwobrau er Anrhydedd y Brifysgol. Cynigiwyd 22 o enwebiadau gan staff, myfyrwyr, Cymrodyr er Anrhydedd y Brifysgol, ac eraill am Gymrodoriaethau neu Raddau er Anrhydedd Prifysgol Aberystwyth. Roedd pedwar enwebiad a ystyriwyd yn wreiddiol ar 22 Hydref 2015 hefyd wedi eu hailgyflwyno i'w hystyried ymhellach.

2. Roedd y Senedd wedi ystyried yr enwau a gynigiwyd ar gyfer Gwobrau er Anrhydedd ar 16 Tachwedd 2016, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor eu cymeradwyo'n ffurfiol.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r enwebiadau a gynigiwyd ar gyfer Gwobrau er Anrhydedd y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

40. CYNLLUN GWEITHREDU AR LYWODRAETHIANT

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-041).

NODWYD

1. Ar 23 Hydref 2015, cymeradwyodd y Cyngor nifer o gamau gweithredu i fwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed yn rhan o'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn 2015. Cynhaliwyd yr Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu yng nghyd-destun Cod Ymarfer Addysg Uwch newydd Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion a gyhoeddwyd yn ystod mis Rhagfyr 2014.

2. Cyflwynwyd adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn unol â'r Cynllun Gweithredu i'r Cyngor ar 11 Mai 2016, a gofynnodd yr aelodau am adroddiad arall ar y sefyllfa ddiweddaraf erbyn y cyfarfod ar 29 Tachwedd 2016.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r cynnydd a wnaed hyd yma a chadarnhau bod y Cynllun Gweithredu'n gyflawn i bob pwrpas (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

41. ATAL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (COU1617-042).

NODWYD

1. Yn ystod mis Hydref 2016, bu CCAUC yn ymgynghori ar Fframwaith Monitro arfaethedig ar gyfer Atal. Roedd y Cyngor Cyllido bellach wedi cyhoeddi cylchlythyr yn gofyn i sefydliadau addysg uwch Cymru gyflwyno eu Hadroddiadau Blynyddol erbyn 31 Rhagfyr 2016. Yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol, mae'n rhaid i gorff llywodraethu'r Brifysgol wneud tri datganiad ynghylch gweithredu'r Ddyletswydd Atal yn y sefydliad.

2. Roedd aelodau allweddol o Grŵp Goruchwylio Atal y Brifysgol wedi trefnu archwiliad mewnol ar weithgareddau Atal y Brifysgol gyda Chydlynydd Atal Addysg Uwch ac Addysg Bellach Cymru Gyfan ar 23 Tachwedd 2016. Paratowyd Adroddiad Blynyddol drafft y Brifysgol cyn yr archwiliad mewnol hwn, a byddai yn awr yn cael ei fireinio ymhellach ac yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor i'w gymeradwyo drwy ohebiaeth (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

42. PENODI IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-043).

NODWYD

Roedd y broses o recriwtio Is-Ganghellor nesaf y Brifysgol yn mynd rhagddi'n unol â'r amserlen a bennwyd gan y Pwyllgor Dewis a sefydlwyd gan y Cyngor i arwain y broses recriwtio.

43. ADRODDIAD LLYWYDD UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr (COU1617-044).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r datblygiadau diweddaraf yn Undeb y Myfyrwyr ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

44. SWYDDI GWAG AR Y CYNGOR AC IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-045).

NODWYD

1. Byddai tymhorau nifer o Aelodau Annibynnol yn dod i ben ar y Cyngor a rhai is-bwyllgorau yn ystod 2017, a byddai nifer o'r rhain yn gymwys i'w hailbenodi. Roedd y Pwyllgor Enwebiadau felly'n gofyn i unigolion addas fynegi eu diddordeb, er mwyn i'r pwyllgor eu hystyried yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2017. Byddai'r penodiadau a argymhellid wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ar 07 Ebrill 2017.

PENDERFYNWYD

2. Anfon nodyn i aelodau unigol o'r Cyngor yn rhoi gwybod iddynt fod eu tymor yn dod i ben, er mwyn iddynt gael mynegi diddordeb mewn cael eu hailbenodi pe dymunent wneud hynny (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

45. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG GORFFOROAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-046).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn darparu crynodeb o'r risgiau arwyddocaol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

46. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-047).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn nodi'r achlysuron ers cyfarfod diwethaf y Cyngor pan oedd:

    1. y Cadeirydd wedi defnyddio'r Pwerau Gweithredol a ddarperir o dan Reol Sefydlog 6.11; neu

    2. yr aelodau wedi cymeradwyo materion drwy ohebiaeth.

2. Cymeradwyodd y Cadeirydd y materion isod drwy'r Pwerau Gweithredol:

    1. cyflwyniad y Brifysgol i ymgynghoriad CCAUC ar y Ddyletswydd Atal: Fframwaith Monitro i Ddarparwyr Addysg Uwch yng Nghymru; a

    2. diwygiadau i Ordinhad 23.

3. Y mater a gymeradwywyd gan aelodau'r Cyngor drwy ohebiaeth oedd:

    1. cyflwyniad y Brifysgol i ymgynghoriad CCAUC ar Strategaeth Addysg Uwch ddrafft.

47. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn ymdrin â'r adroddiadau blynyddol isod (COU1617-048):

1. y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; a

2. y Pwyllgor Taliadau Staff Hŷn.

NODWYD

3. Fel rhan o'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu a gynhaliwyd yn ddiweddar, cytunwyd y byddai pob is-bwyllgor, o flwyddyn academaidd 2016–17 ymlaen, yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar ei waith dros y flwyddyn academaidd a aeth heibio, gan gyfeirio'n benodol at y materion hynny a ystyriwyd ac a gymeradwywyd yn unol â'r awdurdod a ddirprwywyd i'r pwyllgor gan y Cyngor, ac yn amlinellu gwaith arfaethedig yr is-bwyllgor dros y misoedd nesaf.

48. ADRODDIADAU GAN BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn ymdrin â'r adroddiadau isod (COU1617-016):

1. y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (11 Tachwedd 2016);

2. y Pwyllgor Archwilio a Risg (07 Hydref a 11 Tachwedd 2016);

3. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (07 Hydref 2016);

4. y Senedd (19 Hydref a 16 Tachwedd 2016);

5. y Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Cydraddoldeb (04 Tachwedd 2016);

6. Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg (04 Tachwedd 2016);

7. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (04 Tachwedd 2016);

8. y Pwyllgor ar Wobrau er Anrhydedd (18 Hydref 2016); a

9. Grŵp Gweithredol y Brifysgol – Cyfarfodydd Strategol (17 Medi 2016).

NODWYD

10. <u>Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (11 Tachwedd 2016)</u>

    1. Wrth gymeradwyo cyflwyno cais diwygiedig y Brifysgol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect yr Hen Goleg, nododd yr aelodau fod cynllun y prosiect a'r cyllidebau wedi eu haddasu oherwydd y byddai'r gwaith adeiladu'n cychwyn flwyddyn yn ddiweddarach, pe ceid y cyllid. Roedd cyfanswm cost y prosiect felly wedi'i addasu o £20.6m i £21.9m, ac o'r herwydd byddai cyfraniad y Brifysgol i gyfanswm cost y prosiect hefyd yn cynyddu.

    2. Argymhellwyd y dylai Cadeirydd y Cyngor gymeradwyo'r cynnydd hwn yng nghyllideb y prosiect ar ran y corff llywodraethu. Fodd bynnag, nid oedd hynny wedi mynd rhagddo eto.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r cynnydd yng nghyllideb prosiect yr Hen Goleg (**ACTION:** Dirprwy Is-Ganghellor (y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol)).

11. Yr adroddiadau a dderbyniwyd gan y pwyllgorau eraill.

49. UNRHYW FATER ARALL

1. <u>Y Gynghrair Strategol â Phrifysgol Bangor</u>

NODWYD

1. Byddai'n dda gan aelodau'r Cyngor gael clywed y diweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo o dan y Gynghrair Strategol.

PENDERFYNWYD

2. Y dylid llunio adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (**GWEITHREDU:** Is-Ganghellor Dros Dro).